The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Dyddiad: 20 Medi 2023

# Datganiad i'r cyfryngau

## Cyhoeddi penderfyniad caniatâd datblygu Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr

**Heddiw, 20 Medi 2023, mae cais Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr wedi cael caniatâd datblygu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net.**

Mae Awel y Môr yn fferm wynt alltraeth, sy'n cynhyrchu dros 500MW. Bydd y prosiect yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): fferm wynt alltraeth, gan gynnwys generaduron tyrbinau gwynt a sylfeini cysylltiedig, offer mesur gwynt a cheblau ararae; seilwaith trawsyrru, gan gynnwys is-orsafoedd alltraeth a sylfeini cysylltiedig, ceblau allforio alltraeth ac ar y tir (o dan y ddaear), gan gynnwys baeau pontio cysylltiedig â baeau uniadol, is-orsaf ar y tir, a seilwaith cysylltu i'r Grid Cenedlaethol.

Cyflwynwyd Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited y cais i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w ystyried ar 20 Ebrill 2022 a'i dderbyn i'w Archwilio ar 18 Mai 2022.

Yn dilyn Archwiliad lle rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd, Ymgynghoreion Statudol a Phartïon â Buddiant roi tystiolaeth i'r Awdurdod Archwilio, gwnaed argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 20 Mehefin 2023.

Dyma Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol rhif 127 a'r cais ynni rhif 74 i gael ei archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio o fewn yr amserlenni a nodwyd yn Neddf Cynllunio 2008.

Dywedodd Prif Weithredwr yr Arolygiaeth Gynllunio, Paul Morrison:

"Mae'r Arolygiaeth Gynllunio bellach wedi archwilio mwy na 100 o brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ers i broses Deddf Cynllunio 2008 gael ei chyflwyno, gan sicrhau bod cymunedau lleol wedi cael y cyfle i gymryd rhan yn y gwaith o archwilio prosiectau a allai effeithio arnynt.

"Mae cymunedau lleol yn parhau i gael y cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o archwilio prosiectau a allai effeithio arnynt. Llwyddodd pobl leol, yr awdurdod lleol a Phartïon eraill â Buddiant i gymryd rhan yn yr Archwiliad chwe mis hwn. "Gwrandawodd yr Awdurdod Archwilio a rhoddodd ystyriaeth lawn i'r holl safbwyntiau lleol a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr Archwiliad cyn gwneud ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol."

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Mae'r penderfyniad, yr argymhelliad a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net a'r dystiolaeth a ystyriwyd gan yr Awdurdod Archwilio wrth gyrraedd ei argymhelliad ar gael i'r cyhoedd ar dudalennau'r prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/projects/fferm-wynt-alltraeth-awel-y-mor/

**DIWEDD**

Dylai newyddiadurwyr sydd eisiau rhagor o wybodaeth gysylltu â'r Swyddfa Wasg yr Arolygiaeth Cynllunio ar 0303 444 5004 neu 0303 444 5005 neu e-bostiwch: Press.office@planninginspectorate.gov.uk

**Nodiadau i olygyddion:**

Mae Rhaglen Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio yn manylu'r cynigion y disgwylir eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio fel ceisiadau yn ystod y misoedd nesaf.

Gellir ei weld yn https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/